OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 No. 1820

## Rheoliadau'r Rhestr Wastraffoedd (Cymru) 2005

**Nodweddion a phriodoleddau sylweddau peryglus a ddosbarthwyd yn wastraff peryglus**

**4.** Mae gwastraff yn bodloni gofynion y rheoliad hwn o ran unrhyw un o'r priodoloeddau H3 i H8, H10(**1**) ac H11 o Atodiad III, pan fo'n arddangos un neu ragor o'r priodoleddau canlynol—

(a) fflachbwynt ≤ 55 °C,

(b) un neu ragor o sylweddau a ddosbarthwyd(**2**) yn wenwynig iawn mewn cyfanswm crynodiad ≥ 0,1 %,

(c) un neu ragor o sylweddau a ddosbarthwyd yn wenwynig mewn cyfanswm crynodiad ≥ 3 %,

(ch) un neu ragor o sylweddau a ddosbarthwyd yn niweidiol mewn cyfanswm crynodiad ≥ 25 %,

(d) un neu ragor o sylweddau cyrydol a ddosbarthwyd yn R35 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 1 %,

(dd) un neu ragor o sylweddau cyrydol a ddosbarthwyd yn R34 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 5 %,

(e) un neu ragor o sylweddau llidiol a ddosbarthwyd yn R41 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 10 %,

(f) un neu ragor o sylweddau llidiol a ddosbarthwyd yn R36, R37, R38 mewn cyfanswm crynodiad ≥ 20 %,

(ff) un sylwedd y gwyddys ei fod yn garsinogenig o gategori 1 neu 2 mewn crynodiad ≥ 0,1 %,

(g) un sylwedd y gwyddys ei fod yn garsinogenig o gategori 3 mewn crynodiad ≥ 1 %

(ng) un sylwedd gwenwynig ar gyfer atgynhyrchu categori 1 neu 2 a ddosbarthwyd yn R60, R61 mewn crynodiad ≥ 0,5 %,

(h) un sylwedd gwenwynig ar gyfer atgynhyrchu categori 3 a ddosbarthwyd yn R62, R63 mewn crynodiad ≥ 5 %,

(i) un sylwedd mwtagenig o gategori 1 neu 2 a ddosbarthwyd yn R46 mewn crynodiad ≥ 0,1 %,

(j) un sylwedd mwtagenig o gategori 3 a ddosbarthwyd yn R68 mewn crynodiad ≥ 1 %.

(**1**) Yng Nghyfarwyddeb 92/32/EEC sy'n diwygio am y seithfed gwaith Gyfarwyddeb 67/548/EEC cyflwynwyd y term 'toxic for reproduction'. Yn lle'r term 'teratogenic' rhoddwyd y term cyfatebol 'toxic for reproduction'. Ystyrir bod y term hwn yn unol â nodwedd H10 yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 91/689/EEC.

(**2**) Yng Nghyfarwyddeb 92/32/EEC sy'n diwygio am y seithfed gwaith Gyfarwyddeb 67/548/EEC cyflwynwyd y term 'toxic for reproduction'. Yn lle'r term 'teratogenic' rhoddwyd y term cyfatebol 'toxic for reproduction'. Ystyrir bod y term hwn yn unol â nodwedd H10 yn Atodiad III i Gyfarwyddeb 91/689/EEC.